

Rhowch ddiolch

“Meddai wrthynt, ‘Mor daer y bûm yn dyheu am gael bwyta gwledd y Pasg hwn gyda chwi cyn imi ddioddef!’” (adn. 15)

Beth am ddarlenn Luc 22:7–19 ac yna myfyrio

Heddiw, mi fyddwn ni’n ystyried un o roddion eraill ein Harglwydd – Swper yr Arglwydd. Yn yr Alban yn yr ail ganrif ar bymtheg, roedd gwraig ifanc oedd yn aelod o’r Cyfamodwyr (grŵp oedd yn cael ei atal rhag addoli’n agored) ar ei ffordd i gyfarfod dirgel pan gafodd ei rhwystro gan filwr a ofynnodd i ble roedd hi’n mynd. Atebodd hithau, “Dw i’n mynd i dŷ fy Nhad i wrando ar ewyllys ei Fab sydd wedi marw.” Ychydig cyn i’n Gwarddwr farw, esboniodd mai rhan o’i ewyllys oedd pryd o fwyd syml. Wrth fyfyrio ar y rhodd yma yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf, fyddwn ni ddim yn delio â’r dadleuon mawr sydd wedi codi ynglŷn â’r pryd bywd yma nac yn ceisio datrys y manylion. Yn lle hynny, rydyn ni’n eich gwahodd i fyfyrio’n ddefosiynol ac yn syml ar yr agwedd werthfawr hon o etifeddiaeth Crist.

Y nodyn cyntaf i’w seinio ydy diolchgarwch. Nid ‘gras’ yn unig oedd y ‘diolch’ a ddywedodd Iesu am y bywd, ond roedd hefyd yn symbol ohono ef ei hun yn rhoi ei holl fywyd fel offrwm diolchgarwch i Dduw. Gan fod ei aberth ei hun yn fawlgan, rydyn ni’n ymateb drwy ‘roi diolch’. Y gair Groeg am ‘roi diolch’ yw *eucharisteo*, a dyna pam mae rhai eglwysi’n galw gwasanaeth y cymun yn Ewcarist. Ond ni ddylai’r pwyslais fod ar yr hyn a wnawn ni, ond yn hytrach ar yr hyn mae Crist wedi’i wneud er ein mwyn ni. Rydyn ni’n dathlu ei aberth ef, nid ein haberth ni. Ein hunig aberth ni yw aberth o fawl, am ei aberth ef!

Mae bob amser yn llonni’r galon gweld y Cymun Bendigaid yn cael ei ddathlu mewn cynulleidfaoedd rhyngwladol, lle mae pobl sy’n rhanedig oherwydd eu hiaith yn cael eu tynnu at ei gilydd drwy gyfrwng pryd bywd cyffredin. Maen nhw’n gydaddolwyr yr un Gwarddwr – Iesu Grist, Arglwydd y cenedloedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ex. 12:1–11; 14, 17, 24–27; 1 Cor. 10:14–17; Heb. 12:22–29; 13:11–16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam roedd Israel yn cael ei galw i ddathlu Gŵyl y Bara Croyw?
2. Ymateb i beth ydy diolchgarwch, yn ôl y Llythyr at yr Hebreaid?

Gweddi

O Dad, alla i ddim rhoi fy niolch mewn geiriau am y rhodd o’th Fab yn Waredwr i mi. Pan fydda i’n dathlu’r Cymun Bendigaid, boed i mi roi fy holl sylw ar yr hyn rwy’ti wedi’i wneud er fy mwyn i, ac nid ar yr hyn dw i’n ei wneud i ti. Amen.